

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

360- Beirniadaeth Rhyddiaith Blwyddyn 10 ac 11 i ddysgwyr

Beirniad – Emrys Wynn

Chwiliais am strwythr ddeallus a chynnwys a oedd yn fy arwain at allu gweld a theimlo'r profiadau mae'r cystadleydd am eu cyfleu. Rwyf yn diolch i'r pump ymgeisydd am gystadlu a hoffwn longyfarch pob un am eu gwaith.

Wrth ddidoli ar y brig, roedd yn rhaid cynyddu'r pwyslais ar gywirdeb iaith, cystrawen a defnydd o idiom ochr yn ochr â'r cynnwys gan fod cywirdeb iaith yn helpu'r cynnwys i lifo.

Canolbwyntio mae Sophia Malekin ar effaith Covid-19 ar 3 phersonifanc – Alex, Ellen a Keri. Mae profiadau'r tri yn bur wahanol i'w gilydd. Mae iaith Sophia yn llithro'n ystwyth ac yn bur gywir. Mae'n defnyddio idiom naturiol y Gymraeg ond hefyd mae rhannau sy'n 'farddonol' eu naws. Llwyddodd Sophia i gynnal fy niddordeb hyd at y diwedd. Mae strwythr ddeallus i'r gwaith.

Poeni am ddyfodol ei chlwb ieuenctid mae Alisha Church. Mae'n cael braw pan mae'n gweld nodyn ar ddrws y clwb yn dweud bod y clwb wedi cau. Defnyddia Alisha iaith effeithiol a chywir ar y cyfan. Mae gosod yr hanes yn drefnus wrth iddi ddisgrifio ei hymgyrch lwyddiannus i achub y clwb ieuenctid.

Adrodda Regan hanes Jac a'i ffrindiau yn sefydlu Clwb Ieuenctid Llwyddiannus mewn canolfan gymuned o ganlyniad i effaith coronafeirws ar y bobl ifanc. Mae yma ddefnydd da o iaith a chystrawen sy'n gywir ynghyd â defnydd effeithiol o idiom naturiol y Gymraeg.

Mae safon gwaith y tri sydd ar y brig yn uchel iawn a doedd eu gwahanu ddim yn hawdd ond rwyf gosod y tri fel a ganlyn:-

1af - Sophia Malekin 2il - Alisha Church

3ydd - Regan Patterson